CYSTADLAETHAU NEWYDD I EISTEDDFOD Y FENNI

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer Eisteddfod Y Fenni, a gynhelir y 20 Mehefin. Cynigir ystod eang o gystadlaethau ar gyfer plant o bob oedran ac oedolion, ac eleni bydd nifer o gystadlaethau newydd ar gael hefyd.

Am y tro cyntaf bydd cystadleuaeth i gorau ieuenctid ac oedolion, yn dilyn awgrymiadau gan nifer o grwpiau canu lleol. "Mae aelod o gôr 'Only Men Aloud' wedi bod yn cystadlu gyda ni am rai blynyddoedd" meddai Ceri Thomas, Cadeirydd yr Eisteddfod, "felly pwy a ŵyr – efallai y byddan nhw'n dod i'r Fenni i gystadlu hefyd!"

Hefyd yn newydd mae na gystadleuaeth darllen ar yr olwg gyntaf, yn ogystal â'r cystadlaethau llefaru arferol. "Rhai o'r disgyblion uwchradd sy'n cystadlu bob blwyddyn oedd wedi awgrymu hyn" meddai Chris Ellis, aelod o'r pwyllgor, "ac mi rydan ni'n edrych ymlaen at weld pa ymateb a gawn ni."

Mae'r rhan fwyaf o'r cystadlaethau yn agored i bawb, a gellir cystadlu yn rhad ac am ddim, a dewis unrhyw ddarn i'w berfformio. Ond noddir rhai – yr adran gelf a llenyddiaeth – gan Gyngor Tref Y Fenni, a dim ond pobl ifainc o'r Fenni a'r cyffiniau sy'n gallu cystadlu yn y rhain. Eleni mae cystadlaethau ffotograffiaeth ymhlith y dewisiadau, ar y thema "Golygfeydd lleol."

Gellir cael mwy o wybodaeth am Eisteddfod Y Fenni, gan gynnwys ffurflenni cystadlu, ar y wefan – www.eisteddfodyfenni.co.uk – neu gan yr Ysgrifennydd, Chris Watson, ar 01873 853894 neu'r Cadeirydd, Ceri Thomas, ceri.thomas@lineone.net. 22 Mai yw'r dyddiad cau.